LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Gorff/ Awst 2023 Cyfrol 94 Rhif 4

## BEDYDD

Llawenydd mawr i ni oedd cael bod yn dystion i fedydd Tomi Prys Ellis, mab Bethan a Jon, brawd bach Mali, Macsen a Loti ac ŵyr Gethin a Gill Lewis, mewn oedfa deuluol fywiog ar fore Sul 16eg o Orffennaf.



Cyflwynwyd *Y Beibl i Blant* a thystysgrif bedydd i Tomi gan Ebeneser. Wrth gael ei fedyddio roedd Tomi yn gwisgo gwisg fedydd a wisgwyd gan ei hen daid Dave Price ar achlysur ei fedydd yntau ym 1913. Diolch i Gill am wneud teisennau bach blasus i bawb eu mwynhau gyda dishgled yn dilyn yr oedfa.

## CYNGERDD HAF

*Cyngerdd Haf er budd apêl daeargryn Twrci a Syria*

"Wel am gyngerdd bendigedig" oedd ymateb y gynulleidfa wrth iddynt adael y gyngerdd er budd apêl daeargryn Twrci a Syria ar nos Fercher, Gorffennaf y 12fed. Cynhaliwyd y gyngerdd yn yr Eglwys Fethodistiaid, yn yr Eglwys Newydd.

Mwynhaodd y gynulleidfa noson hyfryd yng nghwmni Côr Canna a'r gantores Parisa Fouladi. Cafwyd anerchiad gan Cynan Llwyd, Trefnydd Tear Fund Cymru, am yr angen dirfawr sydd yn parhau yn Nhwrci a Syria yn sgîl y ddaeargryn a darodd y ddwy wlad yn mis Chwefror eleni. Rhannodd Cynan peth o hanes dirdynnol y dioddefaint enbyd fu yn sgîl y ddaeargryn, a'r angen difrifol am adnoddau sylfaenol ar gyfer bywyd bob dydd.



Medi Lloyd a'r gyfeilyddes, Kim Lloyd Jones. Cafwyd arlwy cerddorol oedd wrth ddant pawb, gyda detholiad o ganeuon amrywiol, yn cynnwys ambell emyn, caneuon pop, a chaneuon clasurol. Cafwyd unawd gan Eiriana Jones-Campbell ac fe ganodd hi hefyd ddeuawd gyda'i mam Lona. Mae'r côr llwyddiannus yma yn ymarfer ar hyn o bryd ar gyfer yr ŵyl Gerdd Dant sy'n cael ei chynnal yng Nghaerdydd yn mis Tachwedd.



Mae Parisa Fouladi yn gantores sy'n mynd o nerth i nerth, ac yn gwneud enw i'w hun yn y Sîn Roc Gymraeg. Mae hi'n perfformio mewn nifer o wyliau'r haf gan gynnwys Tafwyl a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae hi ar fin rhyddhau EP newydd ac mae ei chaneuon i'w clywed yn aml ar Radio Cymru. Perfformiodd Parisa bedair cân yn ystod y gyngerdd, pob un ohonynt ag arwyddocad personol. Canodd un o'i chaneuon yn y Gymraeg a Farsi, iaith Iran, gwlad genedigol ei thad.



Gellir gwrando ar ei chlasur Lleuad Du ar Spotify.

Diolchodd Alun Tudur i Gôr Canna a'u harweinydd Delyth Medi Lloyd, i'r gyfeilyddes Kim Lloyd Jones, i Parisa Fouladi a'i chyfeilydd Charlie am eu perfformiadau, a diolchodd i bawb am gefnogi'r noson.

Pwrpas y noson oedd codi arian i Apêl DEC, Daeargryn Syria Twrci. Llwyddwyd trwy gyfrwng y digwyddiad hwn i godi dros £1,700 tuag at yr apêl, er budd yr elusennau sy'n gweithio'n ddiwyd yn Nhwrci a Syria ac sy'n cynnig gobaith i'r trigolion lleol.

**John Hayes**

***Diolch o galon*** *i John a Bethan Hayes am gydlynu'r trefniadau ar gyfer y cyngerdd ac i'r criw o aelodau Ebeneser fu'n ddygn yn cynorthwyo gyda'r trefnu.*

# Cyfnod Sabothol


O ddechrau mis Medi hyd ddiwedd Tachwedd bydd Alun yn cael ei ryddhau o'i holl ddyletswyddau fel gweinidog Ebeneser, ar wahân i angladdau. Canllaw Undeb yr Annibynwyr yw fod gweinidog yn cael ei ryddhau pob saith mlynedd. Ond peidiwch â phoeni, y mae trefniadau eisoes wedi eu gwneud fel y bydd pob rhan o fywyd Eglwys Ebeneser yn gweithredu'n effeithiol. Y mae diaconiaid ac aelodau wedi ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol. Os ydych angen gwybodaeth, yn clywed bod aelod yn sâl neu am gysylltu gydag Ebeneser, rhowch wybod i un o'r diaconiaid. Mae eu rhifau ffôn a'u cyfeiriadau e-bost ar gael yn yr adroddiad blynyddol.

Bwriad Alun yw gwneud peth gwaith ymchwil Beiblaidd, hanesyddol a chymdeithasol i ddau bwnc yn benodol sef tyfu eglwysi yn 2023 a phlannu cynulleidfaoedd newydd. Bydd y cyfnod hwn yn rhoi cyfle iddo ddarllen, myfyrio ac ysgrifennu.

---

## Gair gan y gweinidog

Hoffwn ddiolch i chi fel aelodau Ebeneser am eich haelioni mawr yn caniatáu i mi gael 3 mis Sabothol eleni. Rwyf yn eithriadol o werthfawrogol o'r ewyllys da hwn tuag ataf. Mae bywyd yn aml fel chwrligwgan ac mae'n anodd camu allan o'r prysurdeb, cyfrifoldebau, gweithgareddau, rhigolau a dyletswyddau i gael orig i feddwl a myfyrio o ddifrif. Meddwl os ydym ar y trywydd cywir fel eglwys a myfyrio ar arweiniad yr Arglwydd inni fel Cristnogion Cymraeg ein hiaith yng Nghymru heddiw. Bellach rwyf wedi bod yn weinidog i'r Arglwydd Iesu am 37 o flynyddoedd, 28 yma yn eich plith chi. Nid gwag symera a fyddaf yn ystod y tri mis ond defnyddio'r amser yn adeiladol i ddarllen, gweddïo, cnoi cil, trafod ac ysgrifennu. Hyderaf y bydd y cyfnod Sabothol - os Duw a'i myn - yn adeiladol ac y byddaf yn dychwelyd cyn y Nadolig gyda gweledigaeth ac egni newydd. Gras ein Harglwydd a fyddo gyda chwi oll.



---




**Cylchgronau - O**s hoffech gael copi o'r *Tyst* cysylltwch gydag Alison Jones. Os hoffech gael copi o'r *Cristion* cysylltwch gydag Arwel Williams ac os hoffech gael copi o fyfyrdodau *Gair y Dydd* cysylltwch gyda Petra Bennett. Os hoffech gael copi o'r Dinesydd cysylltwch gyda Gwilym Dafydd.

# NEWYDDION

## Cleifion

Y mae Glesni Whettleton wedi dychwelyd yn ôl i'w chartref yn Llysfaen yn dilyn cyfnod hir yn yr Ysbyty. Pob dymuniad da iddi wrth wella.

Fe gafodd Annick Moseley, Llandaf, lawdriniaeth fawr yn yr ysbyty ac y mae nawr adref yn gwella ymgryfhau.

Fe gafodd Elwyn Moseley, Llandaf, driniaeth yn yr ysbyty ac y mae yn gwella gartref.

Mae Beti Pierce, Penylan yn Ysbyty Dewi Sant. Pob dymuniad da iddi.

Cofiwn am ein haelodau hynaf sydd ddim wedi bod yn teimlo'n wych yn ddiweddar, a hefyd y rhai sy'n derbyn triniaeth gyson dan law'r meddyg. Cofiwn am Melora Parry, Margaret Jones, Helen Hilling yn ein gweddïau. Cofiwn yn ogystal am ein cyd-aelodau sy'n gaeth i'w cartrefi a chartrefi gofal: Rosaline Bowen, Beti Pierce, Mair Bennett, Delor Wedlake, Hazell Doull, Rhiannon Jones, Mair Evans, a Margaret Jones. Cofiwch weddïo drostynt a chodi'r ffôn am sgwrs.

### Pen-blwydd

Llongyfarchiadau mawr i Margaret Jones, Yr Eglwys Newydd, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 ar ddechrau mis Gorffennaf. Pob bendith i chi a Duw yn agos.

Fe ddathlodd Vikki Tudur ben-blwydd arbennig iawn ar gychwyn mis Gorffennaf. Pob dymuniad da ac iechyd iddi i'r dyfodol.

Pen-blwydd hapus hwyr i Peter Spriggs, ar gyrraedd carreg filltir arbennig ym mis Mehefin.

### Diolch

Dymuna Vikki Tudur ddiolch i bawb ohonoch anfonodd gyfarchion a rhoddion iddi ar ei phen-blwydd yn ddiweddar.

### Ymddeoliad

Pob dymuniad da a iechyd i Gwenda Lewis yn ystod ei hymddeoliad. Ymddeolodd Gwenda ar ddiwedd mis Mehefin o'i gwaith fel arweinydd tîm cynorthywo pobl rhannol ddall a deillion gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr iawn i Fiona a Llewelyn Tudur, Penarth, ar enedigaeth Nina Haf ar 28ain Mehefin.

Llongyfarchiadau mawr i Carys a Gruffydd Evans ar enedigaeth Noa Gruffydd Evans ar y 15fed Gorffennaf. Mae siwr fod mam-gu a tad-cu, sef, Gweneth ac Alun Evans wedi gwirioni yn llwyr.

Dymunwn yn dda i'r ddau deulu i'r dyfodol a boed i'r Arglwydd eu bendithio yn helaeth.

### Priodas

Dymunwn yn dda i Lowri Tudur a Will Eveleigh, fydd yn priodi ddiwedd mis Gorffennaf yn swydd Henffordd. Pob bendith i'r dyfodol.



## Graddio

Llongyfarchiadau mawr i Beca Hayes ar ennill gradd L.L.M., yn y gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd.

Llongyfarchiadau i Lowri Tudur ar ennill gradd M.Sc., mewn gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd.



## Agor y Llyfr

Bu criw Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn cyflwyno hanes Joseff i ddisgyblion Ysgol Gwaelod y Garth. Cawsant y fraint o ymuno gyda'r plant mewn dau wasanaeth yn ystod mis Mehefin ac fe gafwyd llawer o hwyl yn cyflwyno'r hanes cyffrous iddynt. Diolch i'r staff am y croeso cynnes.




## Llyfr y Flwyddyn

Llongyfarchiadau mawr iawn i Huw a Luned Aaron am ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn Llenyddiaeth Cymru yn y categori Plant a Phobl Ifanc am eu cyfrol *Dwi eisiau bod yn Ddeinosor*. Rydym yn eithriadol o falch ohonynt a'u doniau creadigol.

---

## Colosiaid 3

*Mae Duw wedi'ch dewis chi iddo'i hun ac wedi'ch caru chi'n fawr, felly dangoswch chithau dosturi at bobl eraill, a bod yn garedig, yn ostyngedig, yn addfwyn ac yn amyneddgar. Byddwch yn oddefgar, a maddau i eraill pan dych chi'n meddwl eu bod nhw ar fai. Maddeuwch chi i bobl eraill yn union fel mae'r Arglwydd wedi maddau i chi. A gwisgwch gariad dros y cwbl i gyd – mae cariad yn clymu'r cwbl yn berffaith gyda'i gilydd.*

# Pererindod

Cafwyd pererindod penigamp ar Sul 25ain Mehefin wrth i 27 o aelodau Ebeneser fynd ar dramp ar fws i Fro Morgannwg. Yn ystod y dydd fe gafwyd llawer o hwyl, yn cymdeithasu, cyd-fwyta a dysgu.



Y gyrchfan gyntaf yr aethpwyd iddi oedd Bethesda'r Fro. Gwaetha'r modd aeth y gyrrwr bws ar goll ac ni welsom y capel enwog. Er hynny, fe rannodd Gwilym Dafydd hanes 3 o emynwyr y fro gyda ni. Yr enwocaf, o bosib, oedd Thomas William, Bethesda'r Fro a ysgrifennodd emynau fel "O'th flaen o Dduw rwy'n dyfod....", "Y gŵr wrth ffynnon Jacob...." ac "Adennydd colomen pe cawn..."



## Llanilltud Fawr

Draw wedyn i dref hynod Llanilltud Fawr gan dreulio ychydig amser yn yr eglwys drawiadol. Yno clywsom am wreiddiau cyn-hanesyddol y cwmwd hwnnw, ei gysylltiadau gyda'r seintiau Celtaidd yn cynnwys Illtud. Sefydlodd ef fynachlog yno oedd yn enwog trwy Ewrop am ei safonau addysgol aruchel.



Bu Iolo Morganwg yn byw yn y cyffiniau ac ef oedd y gyfrifol am ddarganfod Colofn Samson sy'n cael ei harddangos yn yr eglwys. Cyn ymadael â'r dref cawsom bryd

danteithiol o fwyd ym mwyty'r Cwtch.



## Y Bontfaen

Draw wedyn i'r Ardd Ffisig yn y Bontfaen lle y cafwyd hanes sefydlu'r ardd gan Carys Wheelan. Y mae'r holl blanhigion sydd yno yn rhai a ddefnyddiwyd dros y canrifoedd i drin salwch ac afiechydon. Trawiadol yw fod pob planhigyn wedi eu labelu mewn tair iaith, Lladin, Saesneg a Chymraeg.




## Porthcawl

I orffen y bererindod fe aethom draw i gapel Y Tabernacl, Porthcawl, i gynnal oedfa o fawl. Cawsom groeso tywysogaidd gan rai o'r aelodau a'r Parch. Dylan Rhys. Siaradodd yr ysgrifennydd Tom Price am y diweddar W. Rhys Nicholas gan roi cefndir yr emyn, "Tydi a wnaeth y wyrth..." Ac wedi inni ganu'r emyn i gyfeiliant Helen Thomas ar yr organ yr oedd yr haleliwia yn ein heneidiau. Diolch yn fawr iawn i aelodau'r Tabernacl am baratoi paned a chacen inni yn y neuadd.



Diolch i bawb fu wrthi'n helpu gyda'r

# Harddwch Iesu



Cofiaf ymweld rai blynyddoedd yn ôl gydag Amgueddfa y Louvre ym Mharis sy'n llawn o drysorau amhrisiadwy. Yn eu plith y mae un o ddarluniau enwog yr athrylith Leonardo da Vinci sef y Mona Lisa. Am ryw reswm mae'r darlun hwn – sydd ychydig mwy na stamp ail ddosbarth! – yn creu cyfaredd torfol ymhlith yr ymwelwyr. Pan euthum i yno roedd cannoedd o bobl wedi tyrru o flaen y darlun olew wedi gwirioni ar y gwrthrych ac yn tynnu lluniau di-rifedi.



Onid ydym fel dynoliaeth yn reddfol yn hoffi edrych ar bethau hardd a chain ac yn barod i dreulio amser yn myfyrio arnynt a'u dadansoddi. Dyma pam fod y National Gallery yn Llundain mor boblogaidd. Yn 2019 fe ymwelodd 6 miliwn o bobl â'r oriel hon. Gostyngodd y cyfanswm hwn i 3.3 miliwn yn 2022 o ganlyniad i effeithiau Covid-19. Ond mae hynny fel petai holl boblogaeth Cymru yn mynd i mewn i'r oriel.

Mae Salm 96 yn fynegiant o addoliad sy'n myfyrio ar harddwch yr Arglwydd. Ynddi mae brawddegau cofiadwy fel "Gogoniant a harddwch sydd o'i flaen ef; nerth a hyfrydwch sydd yn ei gysegr," ac "Addolwch yr Arglwydd mewn prydferthwch sancteiddrwydd:"

Mae Duw yn brydferth a hardd ac y mae hyn yn gyfareddol i ni ac wrth agor ein meddyliau i'w harddwch cawn ein hysgogi i wneud 3 pheth, sef ei addoli, bod yn debyg iddo ac i'w wasanaethu.

Nid yw hyn yn dod yn fwy i'r amlwg yn unman nac yn yr Efengylau sy'n disgrifio yn ddigon syml hanes yr Iesu. Mae'r Iesu yn berson hardd. Darllenwch y tri hanes yn Efengyl Marc pennod 6 adnodau 30 - 56 sy'n adrodd am borthi'r pum mil, cerdded ar y dŵr ac iachau'r cleifion yn Genesaret. Myfyriwch ar y geiriau hyn yn bwyllog gan ganolbwyntio ar Iesu, ei ymddygiad, ei natur a'i ymateb i'r bobl a ddaw i gysylltiad â hwy.

Yma gwelwn harddwch rhyfeddol ei berson – nid yn ei bryd a'i wedd – ond ei natur unigryw. Yn y tri hanes gwelwn ei ofal tros ei ddisgyblion, ei drugaredd tuag at bobl oedd yn ei ddilyn a'i gariad tuag at y cleifion. Gwelwn ei ddwyfoldeb yn dod i'r amlwg yn ei wyrthiau o amlhau y bara a'r pysgod, trwy dawelu'r môr brochiog a thrwy iachau cleifion. Ynddo Ef y mae prydferthwch dynol yn llewyrch. Iesu yw'r unig berson cyflawn sydd wedi troedio'r ddaer, yr unig berson sydd yn ymddwyn fel y bwriadodd Duw i bawb ohonom ymddwyn. Yr unig berson perffaith.

Ac wrth fyfyrio ar ei harddwch mae addoliad yn cyniwair yn ein calon ac awydd i fod yn debyg iddo ac awydd i'w wasanaethu. Myfyriwch ar harddwch yr Arglwydd.

Mae'r Iesu'n fwy na'i roddion,
mae ef yn fwy na'i ras,
yn fwy na'i holl weithredoedd
o fewn ac o'r tu faes;
pob ffydd a dawn a phurdeb,
mi lefa' amdanynt hwy,
ond arno'i hun yn wastad
edrycha' i'n llawer mwy.

Gweld wyneb fy Anwylyd
wna i'm henaid lawenhau
drwy'r cwbwl ges i eto
neu fyth gaf ei fwynhau;
pan elont hwy yn eisiau,
pan byddaf fi yn drist
tra caffwyf weled
wyneb siriolaf Iesu Grist?

WILLIAM WILLIAMS, 1717-91

## Undeb Bro Maelor

Noddwyd Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr eleni gan Gyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint, sy'n cynnwys 9 o eglwysi. Gellir gwylio fideo ar Youtube ar gyfrif Teledu Annibynwyr Cymru yn dwyn y teitl, "Croeso i Wrecsam".

Yn ystod tridiau'r Cyfarfodydd Blynyddol yn Rhosllannerchrugog roedd llu o weithgareddau amrywiol. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn y 'Stiwt, Plas y Mwynwyr, un o adeiladau eiconig yr ardal.



## Trysorydd



Ar y dydd Mercher croesawyd pawb i'r cyfarfodydd yn cynnwys Trysorydd newydd Undeb yr Annibynwyr sef Geraint Rees, Y Tabernacl, Efail Isaf. Bydd ef yn gaffaeliad mawr i'r gwaith gan ei fod yn un sydd wedi arfer trin â chyllidebau mawrion ym myd addysg. Dymunwn yn dda iddo wrth edrych ar ôl portffolio ariannol yr Undeb.



## Croeso

Fe groesawodd y Llywydd, sef Y Parch. Beti Wyn James, hefyd ddarpar lywydd yr Undeb sef y Parch. Owain Llŷr Evans, Minny Street, Caerdydd. Bydd Owain yn cychwyn ar ei waith yn 2025.

## Llywyddiaeth

Ar ddiwedd y cyfarfodydd fe drosglwyddwyd Beibl y Llywydd gan Y Parch. Beti Wyn James i'r Parch. Jeff Williams, y llywydd newydd. Diolchwyd yn fawr i Beti Wyn am ei holl waith tros y ddwy flynedd ddiwethaf a dymunwn yn dda i Jeff wrth iddo ymgymryd â chyfrifoldebau'r swydd.



## Adroddiad Blynyddol

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol y Parch. Dyfrig Rees, Adroddiad Blynyddol yr Undeb. Mae hwn yn rhan pwysig o'r gynhadledd gan ei fod yn tafoli gwaith yr Undeb.

Cyfeiriodd at raglenni gwaith yr Undeb sy'n cynnwys, prosiect Eglwysi Dementia-gyfeillgar,

Economi Bywyd a Newid Hinsawdd, Y Cwmni Bach – Podlediadau gynhyrchir gan gan Elinor Wyn Reynolds; cerddoriaeth (Bydd cymal nesaf y Genhadaeth Ddigidol (MSP4) yn ymwneud â cherddoriaeth.) Y Tyst, Rhaglen Arloesi a Buddsoddi ymhlith eraill.
Symudodd ymlaen wedyn i gyfeirio at y mudiadau rhyngenwadol y mae'r Undeb yn gysylltiedig â hwy gan gynnwys Cytûn, Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang, (CWM). Er bod Dyfrig yn gadarnhaol ei ysbryd mae'r sefyllfa ystadegol erbyn hyn yn ysgytwol. Dywedodd,

"**Ein sefyllfa:** fel y nodais ynghynt, 50 mlynedd union yn ôl yr ymwelodd yr Undeb â Rhosllannerchrugog, ddiwetha'. Afraid dweud bod pethau'n bur wahanol bryd hynny. Roedd ar lyfrau'r Undeb y flwyddyn honno 751 o eglwysi gydag aelodaeth o 82,295 a 238 o weinidogion. Heddiw, gwelir 341 o eglwysi gydag aelodaeth o 14,982 a 50 o weinidogion. Mewn cwta ddwy genhedlaeth collwyd 55% o eglwysi, 82% o'r aelodaeth a 79% o weinidogion. Nid cysur yw datgan bo'r ffigurau olaf hyn yn debygol o ostwng yn sylweddol eto dros y blynyddoedd nesaf."

A dyma pam y cyflwynodd Iwan Llewelyn Jones ac Alun Tudur y penderfyniad hwn i gynhadledd yr Undeb.

*"Cenhadu: - Yn ystod yr argyfwng ysbrydol difrifol sy'n digwydd ar hyn o bryd o'n cwmpas ac yn ein plith, ac sy'n debygol o waethygu yn ystod y blynyddoedd nesaf, hoffem annog Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, a'r holl eglwysi, i weithredu ar fyrder trwy:*

- *weddïo'n daer ar i'r Arglwydd drugarhau wrth genedl y Cymry*
- *ymbil am dywalltiad adnewyddol o'r Ysbryd Glân fydd yn dod a phobl newydd i ffydd yn Iesu Grist ac yn codi to newydd o arweinyddion ifanc*
- *ymroi, ar lawr gwlad, i genhadu'n lleol, gan sicrhau mai lledaenu'r Efengyl sy'n cael y flaenoriaeth yn ein holl weithgarwch*
- *barhau i annog cenhadu, a chynnal breichiau ein gilydd yn y gweithgarwch hwnnw, fel sydd eisoes yn digwydd drwy'r cynllun 'Arloesi a Buddsoddi'.*
- *"gychwyn ymgyrch arbennig i weithio ymhlith teuluoedd, ieuenctid a phlant er gogoniant i Dduw ac er mwyn hyrwyddo ei waith yng Nghymru."*




## Apêl Ffynhonnau Byw

Un o'r pethau pwysicaf ddigwyddodd oedd Lansio Apêl Undeb yr Annibynwyr mewn cyd-weithrediad â Chymorth Cristnogol – sef Ffynhonnau Byw. (Gweler Eseia 35: 7) Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd yr eglwysi Annibynnol yn codi arian tuag at brosiectau dyngarol yng Ngholombia, De America. Yno y mae tlodi mawr ac anghenion cymdeithasol dybryd. Gobeithiwn y byddwn ni fel eglwys yn gallu codi cyfanswm da o arian tuag at yr apêl hwn. Y mae fideo Apêl Ffynhonnau Byw ar gael ar gyfrif Youtube yr Undeb sef Teledu Annibynwr.




# Angor Grangetown

Mae oddeutu 30 o bobl wedi bod yn dod yn gyson i gyfarfodydd Angor yn ddiweddar ac oddeutu 10 o blant. Mae'r cyfarfodydd anffurfiol wedi bod yn llawn egni ac ymdeimlad o bresennoldeb yr Ysbryd Glân. Yn ddiweddar rydym wedi bod yn edrych ar Lyfr Rwth o dan arweiniad Cynan Llwyd, Gwilym Jeffs a Carys Mair Jones. Diolchwn yn fawr iawn i'r Arglwydd am y fendith fawr a gawn o gyd-addoli gyda'n gilydd a dathlu ein ffydd yn Iesu Grist. Mae wedi bod yn wych hefyd i gael rhagor o gerddorion yn y band mawl.

Os ydych chi yn adnabod pobl sy'n byw yn ardal Grangetown, beth am i chi eu gwahodd i ddod i'r cyfarfodydd sydd am 4.30 ar yr ail a'r pedwerydd Sul o bob mis?

Yn ystod Mis Awst fe fyddwn yn cael hoe o'n cyfarfodydd gan fod cymaint yn mynd i ffwrdd ac ar grwydr. Byddwn yn cychwyn ein cyfarfodydd eto ar yr ail Sul o fis Medi.

## Plant

Yr ydym yn parhau i weithio fel eglwys er mwyn adeiladu ein gwaith a'n gweithgareddau gyda theuluoedd a phlant. Yn ystod y tymor diwethaf mae wedi bod yn her i gael plant i ddod i'r gweithgareddau a drefnir ar eu cyfer. Ond rydym yn benderfynol dyfalbarhau oherwydd mai'r peth pwysicaf y gall teulu ei wneud yw magu eu plant yn sŵn yr efengyl ac yng nghymdeithas yr Eglwys.

Cyfarfu pwyllgor ar 18fed Gorffennaf i drafod y cynlluniau ar gyfer tymor yr Hydref.

Ar y Sul cyntaf a'r trydydd o bob mis fe gynhelir gwaith plant am 10.00 a yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Ar Sul cyntaf Llanllanast fydd y gweithgarwch. Ar yr ail ar pedwerydd Sul y mae gwaith plant yn cael ei gynnal gan Angor am 4.30 yng Nghanolfan Reach yn Grangetown.

Diolch i Catrin ac Ifan Roberts, Esyllt Jones, Carys Mair Jones Huw a Luned am eu cymorth parod.

Gofynnwn i chi fel aelodau i weddio yn gyson tros ein gwaith gyda theuluoedd a phlant.



# GWEDDI

Gymeres i’r dosbarth Mathemateg hwn rhyw dro lle dechreuon ni siarad am algorithmau a chodio. Os wyt ti eisiau codio cyfrifiadur, mae'n rhaid i ti fod yn hynod o benodol. Er mwyn ein helpu i ddeall, gofynnodd yr hyfforddwr y dosbarth i ddisgrifio, gam wrth gam, sut i wneud brechdan menyn a jam.

Er mwyn bod yn llwyddiannus, roedd yn rhaid i ni fynd i lefel boenus o fanylder . . .

1. Agorwch y jar jam.

2. Gosodwch y caead ar y cownter wrth ymyl y jar jam.


3. Codwch gyllell fenyn.

4. Dipiwch y gyllell fenyn yn y jar jam agored. ...... ayyb., ayyb., ayyb.

Ni ddylai gwneud brechdan jam fod mor gymhleth! Weithiau, dŷn ni'n gwneud gweddïo yn rhy gymhleth. Os wyt ti'n dilyn Iesu, yna bydd yn rhaid i weddi ddod yn rhan reolaidd o'th fywyd, nid oherwydd dyletswydd grefyddol, ond oherwydd beth yw gweddi mewn gwirionedd.

Cyfathrebu yw gweddi; mae'n cymryd amser i fynegi i Dduw (yn onest) y pethau rwyt ti'n eu profi.

Myfyrdod yw gweddi; bod yn llonydd, a thalu sylw i'r gwahanol ffyrdd y mae Duw yn siarad ag yn gweithio yn dy fywyd.



Diolchgarwch yw gweddi; bod yn ddiolchgar am y bywyd mae Duw wedi ei roi i ti.

Dangos i ba gyfeiriad i fynd yw gweddi; mae'n trefnu dy fywyd o amgylch yr hyn y mae Duw yn ei ddymuno yn hytrach na'n dymuniadau ni.

Paid â'i wneud yn gymhleth; gwna e’n ddiffuant. Does dim rhaid i weddi gymryd yn hir, ond po fwyaf y byddi di’n ymarfer gweddi yn rheolaidd, y mwyaf y byddi di’n dymuno treulio amser gyda Duw.

**Awdur gwreiddiol: SoCal Youth Ministries ar gyfer You Version. Cyfieithiad Cymraeg: Tudur Jones**

## Gwasanaethau ar CD

**O**s hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD wedi ei bostio i'ch cartref cysylltwch gyda Tudur Jones.

## DILLAD A BWYD

**M**ae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd a'r dillad yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni.

**Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis.**

Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.

## E-bost.

Os hoffech dderbyn e-bost wythnosol Ebeneser anfonwch neges at ebenesercaerdydd1@gmail.com

**Recordiadau -**

Gellir gwrando ar holl bregethau Ebeneser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur.Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Seren Jones am ein help.

**Tîm Digidol -**

Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. E.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar (Twitter), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

**Gosod a Gofal**

- Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd wedi cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul a hefyd gyda gweithredu rheolau hylendid COVID-19. Mae wedi golygu llawer o waith ychwanegol. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur am ei holl help.

## CYFRANIADAU

**Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser yn ystod 2022. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn eich haelioni tuag at waith hollbwysig yr Arglwydd Iesu trwy gytfrwng Ebeneser.**

Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, un ai:

Trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod. Gyda diolch o flaen llaw am eich haelioni.

# Calendr

*Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD *Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA

*Cynhelir **Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis** yn Reach Centre, Avondale Street, Grangetown, CF11 7DT

7.30 - Pob nos Lun, cynhelir y **cwrdd gweddi** yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

**AWST**

**Suliau Awst**

6 Oedfa pnawn yn unig yng Nghapel y Methodistiaid o dan arweiniad Ifan a Catrin Roberts.

13 Oedfa'r bore yn unig am 10.00 yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd o dan arweiniad Gwilym Jeffs.

20 Oedfa p'nawn yn unig am 3.00 yng nghapel y Methodistiaid o dan arweiniad Cynan Llwyd

27 Oedfaon y Sul am 10.00 a 3.00 o dan arweiniad John Roberts

**Suliau Medi**

Medi 3 - Andrew Sulley (bore a phnawn)
Medi - 10 bore Gwynedd Jones; pnawn - i'w drefnu
Medi 17 - Gwilym Jeffs (Bore a phnawn)
Medi - 24 Sian Rees, Cymdeithas y Beibl (bore a phnawn)

**Suliau Hydref**

Hydref 1 - Ifan a Catrin Roberts (bore a phnawn)
Hydref 8 - Rosa Hunt, Tabernacl (bore a phnawn)
Hydref 15 - Cynan Llwyd (bore a phnawn)
Hydref 22 - i'w drefnu
Hydref 29 - Joseff Edwards, Blaenau Ffestiniog (bore a phnawn)

**Suliau Tachwedd**

Tachwedd 5 - Nan Wyn Powell-Davies - Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru (bore a phnawn)
Tachwedd 12 - Bore i'w drefnu. Rhodri Jones (pnawn)
Tachwedd 19 - Cynan Llwyd (bore a phnawn)
Tachwedd 26 - Arwel Jones, Caernarfon (bore a phnawn)









